**Cofnodion Cyfarfod 01/03/2021 - drwy Zoom**

**Yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| L T Davies | D M Evans (Yn y gadair) |
| G Jones | W A Roberts |
| M Davies | M Evans |
| Cynyr Ifan | G James |

**Ymddieuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Gwilym Williams, Steff Jenkins a Heledd Clayton.

**Materion Personol**
Estynnwyd cydymdeimlad dwysaf i'r Cyng J S Jenkins a'r teulu ar golli Mam a Mamgu.

**Cofnodion**
Cynigiwyd cofnodion mis Chwefror yn gywir gan y Cyng Cynyr Ifan ac ategwyd hyn gan y Cyng W A Roberts.

**Materion yn Codi o'r Cofnodion**
*Dŵr Cymru* Mae'r cwmni wedi cysylltu gyda'u Adran Ystadau er mwyn sefydlu a cyfrifoldeb nhw ydy cynnal a chadw'r rheiliau ger y 'Patio'. Maent hefyd yn trefnu i'r gordyfiant ar eu safle gyferbyn a Dolhawen, Pontgarreg gael ei dorri.

*Cae Cymunedol* Mi fydd y Cyng D M Evans yn gofyn i'r contractwr sy'n mynd i dorri coed o amgylch y neuadd i roi pris am y gwaith o amgylch y cae cymunedol. Mae'r clerc wedi cysylltu gyda chwmni D E Owen a'i Fab am bris tuag at ychwanegu clawdd yr Ysgol at gytundeb y Cyngor Cymuned. Mi fydd hefyd yn gofyn iddynt ychwanegu pris am dorri porfa'r cae cymunedol.

*Hen Ffynnon Fair Llangrannog* Mi fydd y Cyng Cynyr Ifan yn codi mater ynglyn a'r posibilrwydd o glirio'r safle gyda'r Pwyllgor Lles ynghyd a'r posibilrwydd o roi arwydd ger y lleoliad yn rhybuddio'r cyhoedd am nad ydy ansawdd y dŵr yn addas i'w yfed. Cytunwyd hefyd fod eisiau sefydlu pwy sydd yn perchen ar y safle

*BT* Mae'r cwmni wedi diweddaru'r clerc ynglyn a'r ciosg yn Llangrannog. Mi roedd y Cyngor Sir wedi gwrthwynebu cymryd y ciosg i ffwrdd. Mae BT wedi gofyn am luniau o'r ciosg er mwyn iddynt fedru trefnu ei gynnal a chadw. Mae'r clerc wedi danfon y lluniau atynt.

**Gohebiaeth**
*Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon i Gymru* Mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar Gynllun Newydd Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon i Gymru. Mae'r clerc wedi danfon manylion yr ymgynghoriad ac mi fyddwn yn trafod ei gynnwys yn y cyfarfod nesaf.

*Shân Gwyn* Wnaeth y clerc cyflwyno llythyr o ymddiswyddiad o'i swydd o Chlerc a Swyddog a Chyfrifoldeb Cyfrifon i Gyngor Cymuned Llangrannog. Diolchwyd iddi am ei gwaith dros y blynyddoedd gan y Cadeirydd. Mi fydd y Cynghorwyr yn gwneud ymholiadau yn lleol i sefydlu a oes diddordeb gan rhywun i ymgymryd a'r swydd. Mi fydd hysbysiad swydd hefyd yn cael ei roi yn y Tivyside a'r Gambo.

**Cyfraniadau Ariannol**
Cytunwyd i wneud y cyfraniadau canlynol:-

| | |
|---|---|
| Eglwys Carannog Sant | £200.00 |
| C.FF. I Ceredigion | £100.00 |
| Marie Curie | £ 50.00 |
| Cerabral Palsy Cymru | £ 50.00 |
| HAVHAV | £ 50.00 |
| Cruse Ceredigion | £ 50.00 |

**Taliadau**
Shân Gwyn – cyflog y clerc £1,600.00

**Unrhyw Fater Arall**
*Cyng G A Williams* Derbyniwyd galwad ffôn yn ystod y cyfarfod oddi wrth y Cynghorydd yn hysbysu'r aelodau am ei ddymuniad i ymddiswyddo o'i swydd o Gynghorydd Cymunedol dros Cymuned Llangrannog Nid ydy'r Cynghorydd wedi bod mewn iechyd da yn ddiweddar. Estynnwyd cydnabyddiaeth am ei flynyddoedd o wasanaeth diflino ynghyd a'i gyfraniad enfawr nid yn unig i'r Cyngor a'r gymuned ond fel cynrychiolydd ar Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru. Rydym yn dymuno'n dda iddo ar ei ymddeoliad.

*Maes Parcio* Mae aelodau'r Pwyllgor Lles bellach wedi plannu coed yn y lleoliad yma. Maent hefyd wedi tacluso o amgylch ymylon y safle gan dorri ambell goeden helyg yn y broses. Gofynnwyd y cwestiwn a ydy'r pwyllgor wedi gofyn caniatad oddi wrth y Cyngor Sir – perchenogion y safle.

*Dyffryn* Mae'r gwaith wedi dechrau ar y safle yma. Mynegwyd pryder ynglyn a'r ffaith nad ydy'r safle wedi ei ddiogelu a fod yna ffosydd agored. Mi fydd y clerc yn hysbysu'r Cyngor Sir.

*Pant – Llangrannog* Mae arwydd 30mya yn gwynebu'r ffordd anghywir wrth ymyl y Gwersyll. Mae angen trefnu iddo gael ei droi rownd.

*Cranogwen* Mae aelodau'r Pwyllgor Lles yn awyddus i gydnabod Cranogwen drwy greu cofeb yn y pentref. Maent mewn cysylltiad gyda sefydliad 'Monumental Welsh Women' ac wedi sicrhau swm sylweddol o dua £35,000 tuag at y prosiect. Mae angen oddeutu £45,000 ac maent hefyd wedi cael tua £5,000 o grantiau eraill. Mi fydd y Cyng Cynyr Ifan yn diweddaru'r Cyngor ynglyn a'r datblygiadau ynghyd a syniadau ar gyfer cofeb.

.